Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

# Crynodeb heriau allweddol

**1. Cau bylchau cyrhaeddiad mewnaddysg.**

- Cau bylchau cyrhaeddiad drwy godi safonau plant sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim, plant gydag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), plant sy'n derbyn gofal a phlant Sipsiwn a Theithwyr.
- Lleihau eithriadau o'r ysgol a lleihau bwlio.

**2. Annog recriwtio, datblygu agwobrwyo teg mewn cyflogaeth.**

- Cynyddu cyfraddau cyflogaeth pobl ifanc, pobl anabl, pobl lleiafrifoedd ethnig a Mwslimiaid
- Cau'r bwlch cyflog gan ganolbwyntio ar bobl ifanc, pobl lleiafrifoedd ethnig a menywod

**3. Gwella amodau byw mewncymunedau cydlynol.**

- Lleihau tlodi yn enwedig ymysg plant, pobl anabl a phobl lleiafrifoedd ethnig
- Gwella mynediad at ofal i bobl hŷn a phlant
- Lleihau digartrefedd, yn arbennig ar gyfer pobl ifanc sy'n dianc o drais domestig a phobl gyda phroblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu

**4. Cynyddu mynediad at gyfiawnder acannog cyfranogiad democrataidd**

- Sicrhau mynediad cyfartal ac effeithiol i gyfiawnder sifil i bawb
- Gwella cyfranogiad gwleidyddol a sifil a chynyddu amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus

**5. Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chefnogaeth ar gyfer y rhai sy'n profi problemau iechyd meddwl.**

- Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl
- Lleihau'r gyfradd o hunanladdiad yn arbennig ymysg dynion

**6. Atal cam-drin, esgeulustod a chamdriniaeth mewn lleoliadau gofal a chadw.**

- Atal cam-drin, esgeuluso a chamdriniaeth o blant a phobl hŷn mewn ysbytai a chartrefi gofal
- Diogelu hawliau dynol pobl yn y ddalfa

7. **Diddymu trais, cam-drin acaflonyddu yn y gymuned.**

- Dileu achosion o drais, camdrin ac aflonyddu yn arbennig yn erbyn menywod, pobl anabl, pobl lleiafrifoedd ethnig, pobl Fwslimaidd a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

**Ffôn:** 029 2044 7710
**Ebost:** wales@equalityhumanrights.com
**Gwefan:** www.equalityhumanrights.com